monmouthshire
sir fynwy

# Cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion

---

# Canllaw i rieni a gofalwyr







## Beth yw dull sy'n canolbwyntio ar unigolion?

Mae'n golygu:

→ Deall anghenion a dymuniadau eich plentyn.

→ Meddwl am yr hyn sydd yn bwysig iddynt hwy ac ar eu rhan hwy.

→ Meddwl am yr hyn sydd yn gweithio a'r hyn na sydd yn gweithio.

→ Sicrhau bod eich plentyn yn erbyn y cymorth gorau gan bawb sydd yn rhan o'r broses e.e. chi, y lleoliad a gweithwyr proffesiynol eraill

## Beth yw cyfarfod sy'n canolbwyntio ar unigolion?

Yn Sir Fynwy, efallai y bydd hyn yn cael ei alw'n gyfarfod cynllunio ar gyfer derbyn i ysgol/meithrinfa/lleoliad.

Dyma'r broses pan fyddwch chi a gweithwyr proffesiynol eraill sydd yn gyfrifol am gefnogi dyfodol eich plentyn yn dod ynghyd er mwyn trafod y ffordd ymlaen. Mae hyn yn sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol yn deall sut y maent yn medru diwallu anghenion eich plentyn yn y ffordd orau.

Mae yna gyfle i bawb sydd yn rhan o'r broses o gefnogi eich plentyn i ddod at ei gilydd a dathlu eu cyraeddiadau.

Bydd yr amgylchedd yn gyfeillgar a phawb yn cyfrannu at ddatblygu cynllun gweithredu realistig ar gyfer dyfodol eich plentyn.



## Beth allwch chi wneud er mwyn paratoi ar gyfer cyfarfod sy'n canolbwyntio ar unigolion?

Meddyliwch am yr hyn yr hoffech ei rannu am eich plentyn ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Y meysydd canlynol fydd prif ffocws y cyfarfod:

1. Gwybodaeth gefndirol berthnasol – Pwy sydd yn rhan o'r teulu? Gwybodaeth iechyd a meddygol. Pa mor aml mae'r plentyn yn mynychu lleoliad cyn-ysgol? A oes unrhyw gymorth wedi'i drefnu neu dargedau wedi eu gosod?
2. Beth sydd yn unigryw am eich plentyn? Rhinweddau positif eich plentyn ynghyd â'i anghenion.
3. Beth sydd yn bwysig i'ch plentyn? Beth sydd yn ymddiddori ac yn ysgogi eich plentyn? Beth mae eich plentyn yn mwynhau? Beth sydd yn gwneud i'ch plentyn deimlo'n ddiogel? Beth sydd yn helpu'ch plentyn i deimlo'n bwyllog?
4. Beth sydd yn bwysig ar ran eich plentyn? – Pa anghenion sydd angen bod yn eu lle er mwyn sicrhau bod eich plentyn yn manteisio i'r eithaf ar yr amgylchedd dysgu?
5. Barn rhieni/gofalwyr - Fel yr arbenigwr ar eich plentyn, dyma'ch cyfle chi i rannu eich barn, unrhyw feddyliau a phryderon sydd gennych.
6. Barn y plentyn - Y person pwysicaf, eich plentyn! Efallai na fydd eich plentyn yn medru rhannu ei farn yn uniongyrchol, ond rhaid i ni sicrhau bod eich plentyn yn cael ei glywed. Rydych yn medru helpu drwy rannu'r hyn y maent yn mwynhau am y lleoliad, yr hyn y maent yn disgwyl ymlaen ato neu'n bryderus amdano.
7. Beth sydd yn gweithio'n dda ar hyn o bryd? – Yn benodol, beth sydd yn gweithio a'r hyn sydd yn ddefnyddiol i ni wybod.
8. Beth na sydd yn gweithio mor dda? - Beth sydd angen newid? Beth ydym yn medru dysgu a gwneud yn wahanol yn y dyfodol?
9. Manylion y camau nesaf a gytunir – Mae'r camau yn cael eu cytuno er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod pwy sydd yn gwneud beth a phryd.

# Cynllunio sy’n canolbwyntio ar unigolion

---

# Canllaw i rieni a gofalwyr



**CYSYLLTWCH GYDA NI:**
**Cyngor Sir Fynwy**
**Gwasanaeth ADY**
**Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga**
**Sir Fynwy**
**NP15 1GA**
**Ffôn: 01633 644512**
**E-bost: ALN@monmouthshire.gov.uk**